# Panel Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-03-05)

Dyddiad y cyfarfod: 19 Ebrill 2005
Amser y cyfarfod: 17:52 - 19.08
Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther AC | Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| David Melding AC | Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol |
| Janet Davies AC | Archwilio |
| Gwenda Thomas AC | Cyfle Cyfartal |
| Sandy Mewies AC | Materion Ewropeaidd ac Allanol |

### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Jacqui Bowen | Pennaeth Cyswllt â'r Cyfryngau , Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Swyddog Seneddol Gweithredol, Swyddfa'r Llywydd |
| Anna Daniel | Dadansoddydd Polisïau'r UE, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |
| Dai James | Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 22 Chwefror 2005

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones AC, a Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad.

1.2 Cymeradwyodd y Panel gofnodion y cyfarfod diwethaf i'w cyhoeddi.

Camau i'w cymryd: Yr Ysrifenyddiaeth i gyhoeddi'r cofnodion terfynol ar y fewnrwyd.

## Eitem 2: Materion yn codi

2.1 Nodwyd bod cynnydd wedi ei wneud ar y camau i'w cymryd o'r cyfarfodydd blaenorol, ac yn benodol ar y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Busnes ynghylch sicrhau amser yn y cyfarfodydd llawn ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgorau a threfniadau ar gyfer ymdrin ag Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant, a threfniadau'r Panel ar gyfer cymeradwyo gwariant ar gostau teithio'r pwyllgorau.

## Eitem 3: Materion y Cadeiryddion

3.1 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod ei bwyllgor wedi sefydlu Is-bwyllgor Craffu er mwyn craffu ar waith y Gweinidog ar faterion penodol mewn sesiwn ar wahân i fusnes arall y pwyllgor megis casglu tystiolaeth ar gyfer adolygiadau polisi.

3.2 Cafodd y panel gyfle i ystyried a chymeradwyo achos busnes gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer taith dramor i gasglu tystiolaeth ar gyfer ei adolygiad polisi ar drefniadau etholiadol yng Nghymru.

3.3 Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y cyfleusterau rhagorol yn Swyddfa'r Cynulliad ym Mae Colwyn, gan longyfarch yr holl staff oedd wedi bod gweithio i drefnu cyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym Mae Colwyn yn ddiweddar. Anogwyd y Cadeiryddion i ddefnyddio'r adeilad fel lleoliad am gyfarfodydd pan fo'n bosibl. Awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y dylid ystyried gwneud yr adeilad yn fwy gweladwy e.e defnyddio arwyddion; baner y Cynulliad.

Camau i'w cymryd: Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i wneud Swyddfa'r Cynulliad ym Mae Colwyn yn fwy gweladwy.

3.4 Bydd cynrychiolwyr Cyngor Defnyddwyr Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 15 Mehefin i drafod rôl y Cyngor. Mae ei waith yn gysylltiedig â nifer o feysydd busnes y Cynulliad, ac anogwyd y Cadeiryddion i gynnwys Cyngor Defnyddwyr Cymru ar eu rhestrau ymgynghori.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i Glercod y Pwyllgorau gynnwys Cyngor Defnyddwyr Cymru ar eu rhestrau ymgynghori yn y dyfodol.

3.5 Lansiwyd fforwm trafod ar-lein y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda datganiad i'r wasg, ac anfonwyd 2,000 o daflenni at ysgolion. Yn ystod yr wythnos gyntaf, cafwyd naw neges ar y fforwm, a rhagwelir y bydd y niferoedd yn cynyddu yn ystod tymor yr ysgolion. Roedd rhai o'r negeseuon gan bobl y mae'n bosibl na fyddent wedi ymateb i'r Pwyllgor trwy ddulliau eraill.

3.6 Trafodwyd y broses o ddosbarthu papurau Pwyllgor Cymraeg a Saesneg trwy e-bost. Cytunwyd ei fod yn bwysig i holl Aelodau'r Pwyllgorau dderbyn yr holl bapurau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn y dyfodol bydd dwy neges e-bost ar wahân yn cael eu hanfon ar yr un pryd at Aelodau'r Pwyllgorau, wedi eu labelu'n glir er mwyn dangos eu bod yn cynnwys y papurau Cymraeg neu'r papurau Saesneg.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi gwybod i'r Clercod bod angen dosbarthu'r papurau mewn negeseuon e-bost ar wahân ar yr un pryd, gyda'r teitlau'n nodi eu bod yn cynnwys y papurau Cymraeg a'r papurau Saesneg.

3.7 Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal sylw'r Panel at benderfyniad y Pwyllgor Dethol ar Foderneiddio Ty'r Cyffredin i beidio â gwahodd cynrychiolwyr o'r sefydliadau sydd wedi eu datganoli i gyfarfodydd 'Pwyllgor Seneddol Ewropeaidd' y ddau Dy. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor ar Foderneiddio wedi argymell bod y penderfyniad yn cael ei adolygu yn rheolaidd.

## Eitemau i'w cyflwyno

## Eitem 4: Cofnod Gair-am-air y Pwyllgorau - Canllawiau

4.1 Cafodd y Panel gyfle i ystyried y canllawiau drafft. Wrth ymateb i ymholiadau, cadarnhawyd

- y byddai'r cofnod gair-am-air yn dod i ben os na fydd cworwm yn y cyfarfod yn unol â Chanllawiau'r Llywydd ar Bwyllgorau (rhif 10);
- y bydd y cofnod o drafodion y Pwyllgorau yn cael ei gynhyrchu yn yr un modd â'r cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn, gydag unrhyw newidiadau o ran cywirdeb yn cael eu rheoli yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol;
- y bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo cofnodion Pwyllgor cryno sy'n cofnodi penderfyniadau, camau i'w cymryd ac unrhyw faterion gweithdrefniadol;

- y byddai'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r cofnod cryno ar gyfer cyfarfodydd prynhawn Iau yn cael ei gytuno gan y swyddogion.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r canllawiau i gynnwys y materion a godwyd cyn eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad.

4.2 Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r angen i swyddogion y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol eistedd wrth y bwrdd gael ei ystyried ochr yn ochr ag anghenion cyflwynwyr allanol sy'n bresennol mewn cyfarfodydd. Yn yr adeilad newydd bydd desgiau pwrpasol yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol. Bydd y Panel yn derbyn papur ar weithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau yn yr adeilad newydd.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno papur yng nghyfarfod y Panel ar 24 Mai ar y gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau yn yr adeilad newydd.

## Eitem 5: Sylw i'r Pwyllgorau yn y Cyfryngau

5.1 Cafwyd croeso i'r cynnydd yn y sylw a gafwyd yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Panel, cafwyd trafodaeth gyda'r South Wales Argus, a nodwyd y tair erthygl oedd wedi ymddangos yn y papur.

## Eitemau i'w Trafod

## Eitem 6: Protocol ar gyfer gweithredu gan Bwyllgorau o ran craffu ar ddeddfwriaeth yr UE

6.1 Cyflwynodd Anna Daniel bapur yn nodi proses ddeddfwriaethol yr UE ac amlinellodd yr adegau pan fyddai'n bosibl i'r Pwyllgorau ddylanwadu ar y gwahanol gamau.

6.2 Cafwyd trafodaeth fer ynghylch ystyriaeth y Pwyllgorau yn ddiweddar o gynigion yr UE, oedd wedi golygu bod nifer o eitemau wedi eu nodi fel rhai yr oedd y pwyllgor yn dymuno craffu arnynt yn fwy manwl. Nodwyd hefyd bod monitro'r broses o roi'r rheoliadau ar waith ar lefelau rhanbarthol a lleol yn bwysig iawn ac y byddai modd i'r cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau helpu i sicrhau na fyddai Cymru o dan unrhyw anfantais.

6.3 Croesawodd y Panel y papur, a chytunwyd ar y protocol ym mharagraff 17.

Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi gwybod i Arweinwyr Timau Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau bod y Panel wedi cytuno ar y protocol a nodwyd ym mharagraff 17 o gynigion POC(2)-03-05(p.5).

## Eitem 7: Presenoldeb y Cynulliad Cenedlaethol mewn Digwyddiadau Allanol

7.1 Nododd y Panel y rhestr o ddigwyddiadau y bydd y Cynulliad yn bresennol ynddynt dros y misoedd nesaf. Awgrymodd y Panel y byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod y rhaglen dreigl yn cynnwys y digwyddiadau llai o faint hefyd.

Camau i'w cymryd: Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad i ddarparu rhestr o'r digwyddiadau y bydd y timau rhanbarthol yn bresennol ynddynt i'r Panel.

## Eitem 8: Craffu ar y Gyllideb

8.1 Cytunodd y Panel bod y sesiynau hyfforddi ar graffu ar y gyllideb a gynhaliwyd y llynedd wedi bod yn fuddiol ac y dylid cynnig sesiynau tebyg i'r Pwyllgorau eleni. Byddai'r rhain yn cynnwys hyfforddiant ailgynefino, ond hefyd yn edrych ar agweddau eraill, wedi eu llunio'n benodol ar gyfer Pwyllgorau ac Aelodau unigol, oherwydd roedd yr adborth wedi dangos bod rhai Aelodau yn dymuno derbyn gwybodaeth fwy manwl. Cytunwyd bod amseru'r hyfforddiant yn holl bwysig - ni ddylid cynnal yr hyfforddiant gormod o flaen llaw cyn i'r Pwyllgorau gyfarfod ar gyfer y sesiynau craffu.

Camau i'w cymryd: Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau i ddatblygu hyfforddiant ar graffu wrth drafod â Chadeiryddion y Pwyllgorau.

## Eitem 9: Cynllun Gofodol

9.1 Cytunwyd y byddai effaith Cynllun Gofodol Cymru yn amrywio rhwng Pwyllgorau ac y gallai cydweithio ar y mater fod yn anodd. Nodwyd bod peth gwaith eisoes ar droed. Nodwyd sawl dewis yn y papur, gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol. Cytunwyd y byddai'r Cadeiryddion yn ystyried pa un fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer eu Pwyllgor hwy.

## Eitem 10: Y diweddaraf ar Weithio ar y Cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig

10.1 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant bod y Pwyllgor wedi cynnal sesiwn defnyddiol ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Adolygiad OFCOM o Ddarlledu ar 17 Mawrth. Oherwydd ymollyngiad y Senedd ar 11 Ebrill, cyflwynwyd yr adroddiad ar y sesiwn gan y Pwyllgor Diwylliant yn hytrach ac nid fel adroddiad ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig. Nodwyd bod edrych ar un mater yn wahanol iawn i graffu ar ddeddfwriaeth ar y cyd, ac roedd edrych ar fater nad yw wedi ei ddatganoli ar y cyd hefyd yn arwyddocaol.

## Eitem 11:Unrhyw Fater Arall

11.1 Nododd y Panel y dangosyddion perfformiad ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror.

11.2 Croesawyd dyfodiad Cofnod y Trafodion 24 awr dwyieithog fel cam pwysig ymlaen.

11.3 Gresynwyd at y ffaith bod yn rhaid i gostau cyfieithu yn swyddfeydd yr Aelodau gael eu talu o lwfansau personol yr Aelodau. Gobeithiwyd y byddai Pwyllgor y Ty yn adolygu'r mater hwn wrth ystyried arferion gweithio yn y dyfodol.

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Ebrill 2005